**Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned**
**Cabinet Member Economic Development & Community**
Cynghorydd / Councillor Gareth Thomas

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Gofynnwch am/Ask for: **Sion E. Roberts**
☎ **01286 679545**
**sioneurigroberts@gwynedd.llyw.cymru**

Ein Cyf / Our Ref: **SER/gh**
Eich Cyf / Your Ref:

5ed Fehefin, 2020

Annwyl Syr / Fadam,

**Gwaith Dymchwel yn 164 a 166 Stryd Fawr Bangor**

Ers yr ymweliad â busnesau yn ardal Pendref, Bangor ym mis Mawrth, mae'r amgylchiadau presennol mewn perthynas â Covid19 wedi effeithio ar fusnesau ledled y Sir. Fodd bynnag, roeddem yn awyddus i roi diweddariad i chi am y sefyllfa yn eich ardal, gan ein bod yn gwerthfawrogi bod eich amgylchiadau chi, yn sgil y tân, yn hynod o heriol.

Yn dilyn y tân ar 17 Rhagfyr 2019, byddwch yn ymwybodol fod Cyngor Gwynedd wedi gweithredu'n gyflym i sicrhau diogelwch y cyhoedd, ac mae wedi ymgymryd â gwaith sylweddol drwy drefnu sgaffaldau strwythurol i gynnal 164 a 166 Stryd Fawr, Bangor. Achosodd y tân ddifrod sylweddol i'r ddau eiddo ac, yn unol â'n cyfrifoldeb statudol, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod y safle yn ddiogel ac nad yw'n peri risg i'r cyhoedd. O ganlyniad i faint y sgaffaldau sydd eu hangen, bu'n rhaid cau rhan o'r ffordd gyfagos sy'n arwain at ardal Pendref y Stryd Fawr i draffig am gyfnod. Ers hyn, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod dull rheoli traffig diogel ac ymarferol yn ei le, a bu'n monitro'r sefyllfa'n ofalus. Mae ein cydweithwyr yn yr Adran Amgylchedd wedi ein hysbysu mai 9 Ionawr 2020 oedd dyddiad cychwyn y drwydded wreiddiol i gau'r ffordd am gyfnod o chwe mis. Daw'r drwydded ar gyfer cau'r ffordd i ben am hanner nos ar 8 Mehefin 2020. Felly, mae angen ymestyn y drwydded os nad ellir cwblhau'r gwaith cyn y dyddiad hwnnw.

**Dylid pwysleisio mai cyfrifoldeb y gweithwyr a gyflogir gan berchnogion yr adeilad yw rheoli'r gwaith o ddymchwel yr adeiladau presennol.** Mae'r rhaglen waith gymhleth ar gyfer y dymchwel y tu hwnt i gylch gorchwyl y Cyngor. Lle bo modd, mae ein Swyddogion wedi bod yn cynorthwyo'r contractwyr a'r peirianwyr sy'n arwain y gwaith dymchwel ar ran perchnogion 164 a 166 Stryd Fawr. Mae'n glir o'u rhaglen waith ei bod yn dasg fwy heriol a chymhleth nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae cwmni Evans Wolfenden Partnership (EWP), sy'n arwain y gwaith dymchwel, wedi dweud wrthym fod eu rhaglen waith gyfredol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â nifer o ystyriaethau cyn y gellir dechrau ar y gwaith dymchwel. Mae'r ystyriaethau hyn yn ymwneud â'r angen i gael caniatadau statudol, tendro ar gyfer y gwaith dymchwel, cynnal arolygon cyflwr adeiladau, cloddio ac archwilio'r ffordd a'r palmant ynghyd ag ymdrin â'r system draenio a charthffosiaeth o dan y ffordd sy'n annigonol a diffygiol. Bydd yn rhaid cwblhau'r rhain i gyd er mwyn lleoli'r craen 200 tunnell ar y safle, a bydd angen cyflwyno cais am drwydded arall i gau'r ffordd. Mae'n siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi bod y pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar raglen waith heriol y peirianwyr sy'n gweithio ar ran y perchnogion. Mae Swyddogion y Cyngor o'r Adran Amgylchedd yn parhau i gynorthwyo'r contractwyr a'r peirianwyr i gael y caniatadau angenrheidiol, ond disgwylir na fydd modd ail-agor y ffordd am rai misoedd.

Felly, rwy'n pwysleisio ein bod fel Cyngor yn cynorthwyo gymaint â phosib a byddwn yn parhau i'ch hysbysu am unrhyw ddiweddariadau sydd gennym. Bydd Swyddogion hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid yn BID Bangor a Chyngor y Ddinas i dynnu sylw at yr holl gefnogaeth ariannol sydd ar gael i fusnesau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn gywir,

Cyng. Gareth Thomas

**Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned**

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru